# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 51
22/03/21

## Y swper olaf

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes,
a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org




# Stori

## Fersiwn Beibl.net



Daeth diwrnod cyntaf Gŵyl y Bara Croyw (hynny ydy, y diwrnod pan oedd rhaid aberthu oen y Pasg). Dyma Iesu'n anfon Pedr ac Ioan yn eu blaenau i wneud y trefniadau. “Ewch i baratoi swper y Pasg i ni, er mwyn i ni i gyd gael bwyta gyda'n gilydd,” meddai wrthyn nhw.
“Ble rwyt ti am i ni fynd i'w baratoi?” medden nhw wrtho.
Atebodd e, “Wrth i chi fynd i mewn i'r ddinas bydd dyn yn dod i'ch cyfarfod yn cario llestr dŵr. Ewch ar ei ôl i mewn i'r tŷ y bydd yn mynd iddo, a gofyn i'r perchennog, ‘Mae'r athro eisiau gwybod ble mae'r ystafell westai, iddo ddathlu'r Pasg gyda'i ddisgyblion.’ Bydd yn mynd â chi i fyny'r grisiau i ystafell fawr wedi'i pharatoi'n barod. Gwnewch swper i ni yno.” I ffwrdd â nhw, a digwyddodd popeth yn union fel roedd Iesu wedi dweud. Felly dyma nhw'n paratoi swper y Pasg yno.
Yn gynnar y noson honno eisteddodd Iesu wrth y bwrdd, a'i apostolion gydag e. Meddai wrthyn nhw, “Dw i wedi edrych ymlaen yn fawr at gael bwyta'r swper Pasg yma gyda chi cyn i mi ddioddef. Dw i'n dweud wrthoch chi y bydda i ddim yn ei fwyta eto nes i'r cwbl gael ei gyflawni pan ddaw Duw i deyrnasu.”



Yna cymerodd gwpan o win, adrodd gweddi o ddiolch, ac yna dweud wrth ei ddisgyblion, “Cymerwch hwn a'i rannu rhyngoch. Dw i'n dweud wrthoch chi, fydda i ddim yn yfed gwin eto nes i Dduw ddod i deyrnasu.”
Yna cymerodd dorth o fara, ac yna, ar ôl adrodd y weddi o ddiolch, ei thorri a'i rhannu i'w ddisgyblion. “Dyma fy nghorff i, sy'n cael ei roi drosoch chi. Gwnewch hyn i gofio amdana i.”
Wedyn ar ôl bwyta swper gafaelodd yn y cwpan eto, a dweud, “Mae'r cwpan yma'n cynrychioli'r ymrwymiad newydd drwy fy ngwaed i, sy'n cael ei dywallt ar eich rhan chi.”

*Luc 22:7-20 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Roedd Iesu eisiau trefnu bwyta swper y Pasg am y tro olaf gyda’r disgyblion. Dywedodd wrth Pedr ac Ioan, “Ewch i baratoi swper y Pasg.” Wnaethon nhw ofyn iddo, “Ble bydd y swper?” Atebodd Iesu, “Ewch i’r ddinas ac fe wnewch chi gyfarfod â dyn yn cario llestr dŵr. Dilynwch ef a gofynnwch i berchennog y tŷ ddangos i chi yr ystafell ar gyfer gwesteion. Gwnewch y swper yno.”



Daeth yn amser i gael y swper ac eisteddodd Iesu wrth y bwrdd gyda’r disgyblion. Cyn cael swper golchodd Iesu draed ei ddisgyblion a dywedodd wrthynt, “Gofalwch am a charwch eich gilydd fel yr wyf fi’n eich caru chi.”
Cymerodd dorth o fara a dywedodd, “Cymerwch. Bwytewch. Mae’r bara hwn yn arwydd o’m corff a roddir drosoch chi.” Wedyn cymerodd gwpan llawn gwin a dywedodd, “Cymerwch. Yfwch. Mae’r gwin yn arwydd o fy ngwaed a roddir drosoch chi.”

# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Pan fydd ffrindiau a theulu yn cael dod at ei gilydd am bryd o fwyd unwaith eto, pwy fyddi di’n eu gwahodd?
2. Beth gewch chi’n i’w fwyta?
3. Beth oedd y ddau beth rannodd Iesu gyda’r disgyblion yn yr hanes?
4. Sut oedd y ddau beth hyn yn mynd i’n helpu ni i gofio am Iesu?






# Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti am Iesu.
Diolch i Ti am ei fod wedi dod i’r byd a byw bywyd yn llawn cariad.
Plîs helpa fi i ddeall gymaint mae Iesu yn fy ngharu.
Amen.

# Stori i'w lliwio

# Iesu'n bwyta gyda ei ffrindiau


www.lambsongs.co.nz    Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)    Lluniau: Richard Gunther





Aeth Iesu i Jerwsalem am y tro olaf i fwyta gwledd arbennig y Pasg gyda ei ffrindiau.




Dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau, " Rydw i eisiau bwyta gwledd y Pasg gyda chi cyn i mi fynd i ffwrdd. Ewch a pharatowch ar ein cyfer."




"Chwiliwch am ddyn yn cario ystên o ddŵr a dilynwch o. Bydd o'n dangos y ffordd i chi fynd."
Daeth ei ffrindiau o hyd i'r dyn a'i ddilyn.




Aeth y dyn i mewn i dŷ.
Dyma'r tŷ y byddai Iesu'n dod iddo.
Curodd ffrindiau Iesu ar y drws ac aros.



"Oes gennych chi ystafell ar gyfer Iesu?" gofynnon nhw. "Oes, mae gen i ystafell i fyny'r grisiau . Mae popeth fyddwch chi ei angen yn barod. Roeddwn i'n gwybod y byddai Iesu'n dod," meddai'r dyn.



Aeth â nhw i fyny'r grisiau i ystafell fawr. Dyna nhw'n paratoi'r wledd. Roedd yno fasgedi o fara fflat a gwin wedi ei wneud o sudd grawnwin.



Yn fuan daeth Iesu gyda ei ffrindiau eraill. Aethant i fyny'r grisiau i gael swper gyda ei gilydd.



Cymerodd Iesu y bara fflat a'i dorri. Yna rhannodd y bara. Wnaethon nhw rannu'r sudd grawnwin hefyd. Dywedodd Iesu," Pob tro y byddwch yn gwneud hyn, cofiwch amdanaf fi." Yn yr eglwys rydym yn galw hyn yn Gymun.

# Dolenni




Fideo o'r stori
https://youtu.be/46RAb02-MBo



Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/i5ct4sFfOls






Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=SigoALSS1R8

# Gweddi Greadigol

Gwna lun torth a chwpan ( gweler y llun) yna llenwa'r lluniau â "Play- Doh."
Wrth i ti wneud hyn meddylia am y geiriau ddywedodd Iesu yn Luc Pennod 22, adnod 19.
**"Dyma fy nghorff i, sy'n cael ei roi drosoch chi. Gwnewch hyn i gofio amdana i."**



---

## Gweddi ar blât

**Byddi angen:**
- Plât papur
- Pinnau ffelt

**Roedd 12 o'i ddisgyblion gyda Iesu yn y Swper Olaf.**

Meddylia am 12 o bobl y buaset ti eisiau bod gyda thi'n mwynhau pryd o fwyd.

Ysgrifenna eu henwau ar y plât papur, neu tynna eu lluniau ar y plât.

Diolcha i Dduw amdanyn nhw.

Gofynna i Dduw fod yn agos atyn nhw.



# Posau

## Cwpanau gwin




Sawl cwpanaid o win fedri di ddod o hyd iddynt yn y llun isod?



## Pa dŷ?

Fedri di helpu'r ddau ddisgybl hyn i ddod o hyd i'w ffordd i'r tŷ lle gellir cynnal y swper olaf? Dim ond ble gelli di weld y ffordd (yn wyn) y gallant deithio.




© www.biblecartoons.co.uk

## Jig-so

Torra’r jig-so yn ddarnau.

Cymysga’r darnau.

Pa mor gyflym fedri di eu rhoi yn ôl at ei gilydd?



Mae'r bwydydd hyn yn rhan o bryd y Pasg Iddewig.

# Rysáit



## Bara croyw (Bara heb furum)

**Cynhwysion:**

- 2 gwpanaid a 2 lwy fwrdd o flawd
- 1 gwpanaid o ddŵr oer
- ½ llwy de o halen

**Dull:**

- Cymysga'r halen â'r blawd mewn bowlen fawr. Ychwanega'r dŵr a chymysga'r cyfan nes y bydd toes wedi ei ffurfio. Yna tylina'r toes am 5 munud.
- Cynhesa'r badell ffrio drwy ei rhoi ar wres cymhedrol – isel.
- Cymera 7 tamaid o does a ffurfia beli ohono. Rholia pob tamaid allan yn hirgrwn, tua 15cm o hyd, ar arwyneb sydd wedi ei ysgeintio'n ysgafn â blawd.
- Coginia'r toes yn y badell gynnes am 2 funud pob ochr.



## Charoset

**Cynhwysion:**

- 1 gwpanaid o gnau Ffrengig ( haneri a darnau)
- 250g o ddatys (tua 13 o rai mawr â'r garreg wedi ei thynnu o bob un)
- ¼ cwpanaid o sudd oren
- 1 afal 'Granny Smith' wedi ei blicio,wedi ei ddigreiddio a'i falu'n fân.
- ½ llwy de o sinamon
- ¼ llwy de o sinsir




**Dull:**

- Rho'r cnau Ffrengig yn y prosesydd bwyd a'u malu'n fân. Yna trosglwydda'r cnau i bowlen. Cadwa llond llwy fwrdd o'r cnau i addurno'r charoset.
- Nawr rho'r datys a'r sudd oren yn y prosesydd bwyd a phrosesa'r cynhwysion i wneud past trwchus. Cofia grafu ochrau bowlen y prosesydd bob hyn a hyn os bydd angen.
- Trosglwydda'r past i'r bowlen sy'n dal y cnau Ffrengig. Ychwanega'r afal, y sinamon a'r sinsir a chymysga'r cyfan.
- Blasa'r charoset ac ychwanega ragor o sudd oren, sinamon a sinsir os wyt ti'n dymuno blas cryfach arno.
- I addurno, ysgeintia'r llwyad o gnau Ffrengig sydd gennyt ti ar ôl, dros ben y charoset.

*Os nad oes gennyt ti brosesydd bwyd gelli wneud y charoset â llaw.*



# Canu



Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/i5ct4sFfOls

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes ahughes@saintygymuned.org

Yn eistedd gyda'i ffrindiau tua diwedd ei oes,
dim ond ychydig oriau cyn iddo fynd i'r groes;
Roedd wedi plygu i lawr a golchi'u traed a'u dysgu sut i fod,
Cymerodd fara a gwin a siaradodd
am yr hyn a oedd i ddod.

Dywedodd: "Dyma fy nghorff sy'n cael ei dorri drosoch chi.
Bob tro rydych chi'n ei fwyta cofiwch amdanaf fi.
Dyma fy ngwaed wedi'i dywallt drosoch chi.
Nes i mi ddod yn ôl, gwnewch hyn er cof amdanaf fi."

Rydyn ni'n cofio Iesu a'i aberth perffaith drosom ni.
Rydyn ni'n cofio Iesu a'i aberth perffaith drosom ni.

*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | D | U | DD | O | R | E | M | Y | C | P | I |
| Y | S | T | A | F | E | LL | O | R | TH | A | E |
| W | N | A | O | I | W | F | P | Y | N | R | S |
| A | I | G | E | I | S | T | E | DD | H | A | U |
| LL | W | O | A | D | C | I | D | A | LL | T | CH |
| T | G | N | O | S | O | N | R | R | E | O | Y |
| A | B | N | O | I | L | B | Y | G | S | I | D |
| D | W | E | F | R | D | W | N | I | T | A | A |
| E | R | CH | D | E | F | Y | B | A | R | A | R |
| A | DD | R | M | P | D | T | Y | FF | P | Y | B |
| W | J | E | R | W | S | A | L | E | M | W | DD |
| G | N | P | A | S | G | O | L | FF | R | O | C |

ATHRO
BARA
BRADYCHU
BWRDD
BWYTA
CORFF
CWPAN
CYMERODD
DISGYBLION
EISTEDD
GRISIAU
GWIN
GWAED
IESU
IOAN
JERWSALEM
LLESTR
NOSON
PARATOI
PASG
PEDR
PERCHENNOG
SWPER
TYWALLT
YFED
YSTAFELL

# Sialensau

## Cerdyn 'cofio amdanat ti'

Beth am anfon cerdyn at ffrind neu aelod o dy deulu i ddweud dy fod yn cofio amdanyn nhw? Efallai y gallet ti wneud rhai fel yn y lluniau.




## Diolch

Wrth rannu pryd o fwyd gyda dy deulu, meddylia am rywbeth sydd wedi digwydd yn ystod yr wythnos ddiwethaf y medri di fod yn ddiolchgar amdano. Yna gweddia am yr hyn rwyt ti'n ddiolchgar amdano cyn bwyta.



## Dysgu'r adnod

Beth am ddysgu'r adnod hon ar dy gof?

**"Dyma fy nghorff i, sy'n cael ei roi drosoch chi. Gwnewch hyn i gofio amdana i."**

*Luc pennod 22 adnod 19*

## Cofia

Meddylia am bethau sydd yn ein helpu ni i gofio pobl neu bethau a chrea boster ohonyn nhw.



# Gêm bwrdd y Pasg

*Bydd angen dis a chownter ar gyfer pob chwaraewr*

Mae Mair yn gweld Iesu. Ymlaen 2.

Mae'r disgyblion yn gweld Iesu. Ymlaen 1.


Mae Tomos yn amau Iesu. Yn ôl 6.

Mae dros 500 o bobl yn gweld Iesu. Tro arall.



**Diwedd**

Mae'r bedd yn wag. Ymlaen 1.





Mae Iesu wedi ei gladdu. Yn ôl 1.

Iesu'n marw. Tro arall.

Mae Iesu'n maddau i'r lleidr. Ymlaen 2.

Milwyr yn rhoi Iesu ar groes. Tro arall.







Mae'r dorf yn gweiddi am i Iesu farw. Yn ôl 2.

Mae Jwdas yn bradychu Iesu. Yn ôl 4.

Mae Iesu'n cael ei arestio. Yn ôl 2.

Mae Pedr yn gwadu Iesu. Yn ôl 1.

Mae'r Iddewon yn cwestiynu Iesu. Tro arall.





Maen nhw'n mynd i ardd Gethse-mane. Tro arall.

Maen nhw'n cael swper gyda ei gilydd. Ymlaen 2.

Mae Iesu'n golchi traed ei ddisgyblion. Tro arall.

Mae pobl yn gwerthu pethau yno. Yn ôl 2.





Mae Iesu'n mynd i'r Deml i weddïo. Tro arall.



**Dechrau**

Mae'r disgyblion yn dod ag asyn. Ymlaen 2.

Mae torfeydd yn croesawu Iesu. Ymlaen 3.